# CORFFORAETH ADDYSG BELLACH COLEG GWENT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SWYDDOG LLYWODRAETHU



AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU AR 31
GORFFENNAF 2022

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gwent (Y Bwrdd) yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf 2022 ac yn rhoi'r sicrwydd bod y Bwrdd wedi cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac wedi gweithredu o fewn y fframwaith llywodraethu a nodir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Coleg.

1.2 Mabwysiadodd Goleg Gwent y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru (Y Cod) ym mis Hydref 2016. Mae'r Cod yn nodi gofynion statudol ac arfer gorau a argymhellir mewn llywodraethu i gefnogi Llywodraethwyr y coleg. Nod Bwrdd Coleg Gwent yw bodloni (a lle bo modd, rhagori ar) y disgwyliadau a nodir yn y Cod.

# 2. LLYWODRAETHU A MONITRO PERFFORMIAD

## Dogfennau llywodraethu

2.1 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan is-bwyllgorau, gyda phob un yn cael rhaglen waith flynyddol sy'n cyd-fynd â chylch busnes y coleg. Cymeradwywyd Rhestr Ddirprwyo sy'n rhoi eglurder a chysondeb i'r broses o wneud penderfyniadau.

2.2 Adolygir Offeryn ac Erthyglau a Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth yn flynyddol er mwyn sicrhau perthnasedd a chysondeb. Maent hefyd yn cael eu hadolygu'n llawn bob tair blynedd. Cynhaliwyd yr adolygiad llawn diwethaf ym mis Mai 2021. Gellir gweld copïau o'r ddwy ddogfen ar y tudalennau Llywodraethu ar wefan Coleg Gwent: https://www.coleggwent.ac.uk/?s=governance

## Perfformiad y Bwrdd

2.3 Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ragoriaeth a gwelliant parhaus mewn llywodraethu. Er mwyn cefnogi hyn, cyflwynwyd holiadur hunanasesu newydd yn yr haf 2021. Mae pob llywodraethwyr yn llenwi holiadur yn myfyrio ar berfformiad y Bwrdd a'r Cadeirydd. Mae pob Llywodraethwr hefyd yn myfyrio ar eu perfformiad unigol a'u hanghenion datblygu eu hunain.

2.4 Mae dadansoddiad o'r ymatebion yn cael ei adolygu gan y Bwrdd ac mae'n llywio'r gwaith o ddrafftio'r Adroddiad Hunanasesu Llywodraethu. Llunnir Cynllun Gweithredu manwl sy'n nodi blaenoriaethau datblygu ar gyfer y flwyddyn.

## Perfformiad y Coleg

2.5 Dilynodd y flwyddyn academaidd 2021/22 ddwy flynedd o amhariad sylweddol a achoswyd gan bandemig COVID-19. Parhaodd yr amhariad hwn tan hanner cyntaf y flwyddyn a chymerodd y Bwrdd sicrwydd o ddiweddariadau rheolaidd ar ymateb y coleg. Er bod bywyd coleg wedi dychwelyd yn raddol i normal, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr effaith parhaol hyn ac wedi ceisio sicrwydd gan reolaeth ar y mesurau sy'n cael eu cymryd i gefnogi staff a myfyrwyr.

2.6 Wedi cymeradwyo Cynllun Strategol newydd yn 2020-21, adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd a'i bwyllgorau Strategaethau Adrannol a Chwricwlwm sylfaenol yn ystod 2021-22. Mae gan bob Strategaeth Gynllun gweithredu manwl ac fe fydd cynnydd yn cael ei adroddi arno yn rheolaidd. Cytunwyd ar set drosfwafol o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a bydd perfformiad yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro trwy 'Gerdyn Sgorio Cydbwysedd' electronig.

2.7 Yn dilyn adolygiad ym mis Mai 2022, rhoddodd Archwilwyr Mewnol y coleg, y TIAA, sgôr 'Sicrwydd Sylweddol' i'r fframwaith rheoli perfformiad traws-golegol trosfwaol.

## 3. MYNEDIAD AT WYBODAETH

3.1 Mae Corfforaeth Coleg Gwent wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol wrth gynnal ei busnes. I'r perwyl hwn, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Polisi Mynediad at Wybodaeth sy'n gosod y broses y mae'n ei defnyddio wrth wneud penderfyniadau ar ddosbarthu gwybodaeth.

3.2 Cynhwysir eitem Agenda ym mhob cyfarfod i drafod dosbarthiad yr eitemau a drafodwyd ac unrhyw bapurau cysylltiedig. Mae dosbarthiad yn seiliedig ar feini prawf a nodir yn y polisi. Mae pob penderfyniad i ddosbarthu deunydd yn gyfrinachol yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd.

3.3 Mae agendâu cyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan y coleg ynghyd â gwybodaeth am sut i ofyn am gopïau o bapurau sydd ddim yn gyfrinachol. Mae'r Coleg yn anelu at gymryd agwedd ragweithiol tuag at sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae Cynllun Cyhoeddi sy'n amlinellu'r math o wybodaeth a gedwir gan y coleg ar gael ar y wefan.

## 4. AELODAETH GORFFORAETHOL

4.1 Yr aelodaeth y Bwrdd a bennwyd yw 22 o Lywodraethwyr, sy’n cynnwys:

- 16 Llywodraethwr Annibynnol
- 2 Llywodraethwr Staff
- 2 Lywodraethwr Myfyrwyr AB
- 1 Llywodraethwr Myfyrwyr AU
- Y Pennaeth/Prif Weithredwr

Yn ogystal, mae 2 Aelod Allanol Annibynnol gyda sgiliau archwilio a/neu gyfrifeg penodol yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

### Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

4.2 Mae'r Gorfforaeth yn gweithredu gyda Chadeirydd ac un Is-gadeirydd. Etholir pob un gan y Bwrdd i wasanaethu am dymor o ddwy flynedd. Ar ddiwedd eu tymor y swydd gallant geisio cael eu hailethol a gallant wasanaethu hyd at dri thymor (cyfanswm o chwe blynedd) yn y rôl honno. Mae ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn digwydd bob yn ail flwyddyn i gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth a pharhad arweinyddiaeth yn effeithiol.

4.3 Yn 2021/22 Cadeirydd y Llywodraethwyr oedd Mr Mark Langshaw. Cafodd ei ethol i’r rôl gyntaf ym mis Awst 2018 ac fe’i hailetholwyd ym mis Gorffennaf 2020 i wasanaethu am ail dymor o ddwy flynedd hyd at fis Gorffennaf 2022. Mae'r Bwrdd bellach wedi cymeradwyo penodiad Mr Langshaw fel Cadeirydd am y trydydd tymor a'r tymor olaf. Bydd yn gwasanaethu yn y rôl tan fis Gorffennaf 2024.

4.4 Yr Is-Gadeirydd yn ystod 2021/22 oedd Mrs Sue Ball. Etholwyd Mrs Ball i’r rôl gyntaf yn 2021 (i gwblhau tymor swydd yr Is-gadeirydd blaenorol). Wedi hynny, fe’i phenodwyd gan y Bwrdd ym mis Awst 2021 i wasanaethu am 2 flynedd fel Is-gadeirydd hyd at fis Gorffennaf 2023.

### Aelodaeth yn ystod 2021/22

4.5 Y Llywodraethwyr a’r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar Gorfforaeth Coleg Gwent yn ystod 2021/22 oedd:

- Mark Langshaw MBE — Cadeirydd y Llywodraethwyr

| | | |
|---|---|---|
| • Sue Ball | Is-gadeirydd y Llywodraethwyr | |
| • Guy Lacey | Pennaeth/Prif Weithredwr | |
| • Anthony Basnett | Llywodraethwr | |
| • Moawia Bin-Sufyan | Llywodraethwr | Penodwyd Ionawr 2022 |
| • Elizabeth Brimble | Llywodraethwr | |
| • Andrew Clark | Llywodraethwr | |
| • Jamie Farr | Llywodraethwr | |
| • Rhiannon Fowler | Llywodraethwr Staff | |
| • Christopher Freegard OBE | Llywodraethwr | |
| • Bailjit Gill | Llywodraethwr | Penodwyd Mehefin 2022 |
| • Johnathan Hooper | Llywodraethwr Myfyrwyr (AB) | Penodwyd Ionawr 2022 |
| • Sadique Maskeen | Llywodraethwr | Penodwyd Ionawr 2022 Ymddiswyddwyd Awst 2022 |
| • Ray Morrison | | |
| • John Phelps | | |
| • Matthew Preece | | |
| • Wendy Rogers | Llywodraethwr Staff | |
| • Shannon Sheean | Llywodraethwr Myfyrwyr (AB) | Penodwyd Mawrth 2022 |
| • Elizabeth Swaffield | | |
| • Martin Veale | | |
| • Emma Davies | Llywodraethwr | Ymddiswyddwyd Chwefror 2022 |
| • Gavin Evans | Llywodraethwr Myfyrwyr (AU) | Ymddiswyddwyd Ionawr 2022 |
| • Roxy Hodson | Llywodraethwr Myfyrwyr (AB) | Ymddiswyddwyd Tachwedd 2022 |
| • Darragh Hanley-Crofts | Llywodraethwr | Ymddiswyddwyd Gorffennaf 2022 |
| • Sian Hughes | Llywodraethwr Staff | Ymddeolwyd Tachwedd 2021 |
| • Dorota Lee | Aelod Allanol – Pwyllgor Archwilio | |
| • Gareth Watts | Aelod Allanol – Pwyllgor Archwilio | |

## Cymhwysedd

4.6 Bydd ymgeiswyr ar gyfer penodiad yn derbyn gwybodaeth ar y meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodiadau'r Bwrdd ac Ymddiriedolwyr Elusennol ac maent yn llofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod yn bodloni'r meini prawf hyn. Gwirir cymhwysedd pob aelod newydd gan y Swyddog Llywodraethu cyn i'r Bwrdd gymeradwyo'r penodiad. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau yn erbyn y gofrestr Cyfarwyddwyr Anghymwys a'r gofrestr Ansolfedd. Mae hefyd yn ofynnol i aelodau gwblhau cais DBS Manylach. Mae pob aelod yn llofnodi i gadarnhau eu bod yn gymwys ar yr adeg y maent yn cael eu penodi ac yn ail-gadarnhau eu cymhwysedd yn flynyddol.

## Tymhorau Swydd

4.7 Ac eithrio'r Prifathro/Prif Weithredwr a'r Llywodraethwyr Myfyrwyr, penodir pob Llywodraethwr am gyfnod o dair blynedd yn y swydd. Fel arfer gallant wasanaethu am uchafswm o dri thymor (cyfanswm o naw mlynedd). Mae'r Bwrdd o'r farn bod hyd y cyfnod hwn yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth dda o'r Coleg. Mae hefyd yn cefnogi parhad arweinyddiaeth wrth ganiatáu cyflwyno syniadau a safbwyntiau ffres yn rheolaidd.

4.8 Nid yw ailbenodiad ar ddiwedd pob cyfnod o dair blynedd yn awtomatig. Rhaid i Lywodraethwyr Staff geisio cael eu hail-ethol gan eu cyfoedion a gall Llywodraethwyr

annibynnol wneud cais am ailbenodiad. Y Bwrdd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i ailbenodi, ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu a'r Aelodaeth. Mae'r penderfyniad i ailbenodi'n seiliedig ar yr adolygiad o gyfraniad, ymrwymiad a phresenoldeb yr aelod, yn ogystal ag anghenion aelodaeth a sgiliau cyfredol y Bwrdd yn ei gyfanrwydd.

4.9 Penodir Llywodraethwyr Myfyrwyr fel arfer am gyfnod o flwyddyn yn y swydd ond gall y Bwrdd ymestyn hwn hyd at flwyddyn er budd y Gorfforaeth. Gall Llywodraethwyr Myfyrwyr wasanaethu am uchafswm o dri thymor yn y swydd.

### Treuliau

4.10 Mae aelodau'r Gorfforaeth a'i phwyllgorau yn gwasanaethu ar wirfoddol a di-dâl. Gall aelodau hawlio am gostau teithio a chynhaliaeth rhesymol mewn perthynas uniongyrchol â'u rôl. Mae'r treuliau a hawlir yn ymwneud yn bennaf â theithio i ac o gyfarfodydd ond gallant hefyd gynnwys lluniaeth, diodydd di-alcohol a nwyddau hanfodol. Caiff treuliau eu hawlio trwy borth AD hunanwasanaeth y coleg a chânt eu gwirio a'u hawdurdodi gan y Swyddog Llywodraethu. Os bydd y Cadeirydd yn cyflwyno hawliad, caiff hwn ei wirio a'i awdurdodi gan y Swyddog Llywodraethu a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) neu'r Pennaeth/Prif Weithredwr.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022, hawliodd y Llywodraethwyr gyfanswm o £403.05.

### Penodiadau a Recriwtio

4.11 Rhaid i bob penodiad gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Mae'r pwyllgor yn adolygu pob cais, yn creu rhestr fer ac yn cyfarfod â phenodedigion posib cyn gwneud ei argymhellion.

4.12 Etholir Llywodraethwyr Staff a Myfyrwyr gan eu cyfoedion ond maent hefyd yn cyfarfod â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth cyn i'r Bwrdd gymeradwyo eu penodiad yn derfynol.

4.13 Caiff Llywodraethwyr annibynnol eu recriwtio drwy amrywiaeth o ddulliau dan arweiniad y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Mae'r pwyllgor yn adolygu data ar broffil sgiliau'r Bwrdd yn rheolaidd ac mae hyn yn llywio'r broses recriwtio. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gan y Bwrdd y cymysgedd cywir o sgiliau a phrofiad sydd eu hangen i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

### Sefydlu a Datblygu Aelodau'r Gorfforaeth

4.14 Mae Pecyn Sefydlu electronig ar gael i aelodau sydd newydd eu penodi. Mae hyn yn cynnwys copïau o ddogfennau llywodraethu allweddol gan gynnwys:

- Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent
- Rheolau Sefydlog y Gorfforaeth
- Y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cholegau AB
- Y Cod Llywodraethu Da
- Canllawiau Diogelu Llywodraeth Cymru
- Yr Ymddiriedolwr Hanfodol – Canllawiau Comisiwn Elusennau

Cynhwysir hefyd wybodaeth ar dîm rheoli'r coleg a chopïau o'r Cynllun Strategol a'r Strategaethau Is-adrannol sy'n sail iddynt. Gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen neu yn y Gymraeg yn ôl yr angen.

4.15 Mae aelodau newydd yn cael cyfnod Sefydlu sy'n cynnwys cyfarfodydd gyda'r Swyddog Llywodraethu, y Cadeirydd, y Pennaeth/Prif Weithredwr ac Is-benaethiaid. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi trosolwg o sut mae'r Bwrdd yn gweithredu, strwythur y coleg a'i

Genhadaeth a Weledigaeth strategol. Anogir Llywodraethwyr newydd hefyd i fanteisio ar y cyfle i ymweld â phob un o'r campysau.

4.16 Mae gan bob aelod fynediad at y Swyddog Llywodraethu ac ystod o gyngor a chanllawiau sydd ar gael trwy sianel Teams y Gorfforaeth. Maent yn cwblhau modiwlau hyfforddiant gorfodol mewn Diogelu, Y Ddyletswydd Atal a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2021/22, cymerodd Llywodraethwyr ran mewn gweithgareddau datblygu megis:

- Cyfrifoldebau Llywodraethu ac Ymddiriedolwyr Elusen
- Atal Twyll
- Deddf ADY
- Chwythu'r chwiban
- Data Marchnad Lafur Cymru

Hefyd, mynychodd y llywodraethwyr ddau Seminar Strategaeth ym mis Tachwedd 2021 a mis Mehefin 2022. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau i ehangu dealltwriaeth Llywodraethwyr o ddatblygiad y cwricwlwm a rolau a chyfrifoldebau allweddol ar draws y coleg. Nodwyd y ddau faes fel blaenoriaethau trwy'r broses hunan-asesu. Roedd y Seminarau hefyd yn darparu cyfleoedd i drafod cynllunio ariannol strategol, prosiectau cyfalaf a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

4.17 Yn dilyn dros ddwy flynedd o gyfyngiadau COVID-19, roedd y Llywodraethwyr hefyd yn falch o fynychu digwyddiadau coleg yn ail hanner y flwyddyn gan gynnwys cystadlaethau talent, arddangosfeydd celf, sioeau ffasiwn a Gwobrau Dysgwyr a Phrentisiaid.

## 5. Amrywiaeth y Bwrdd

5.1 Mae'r Bwrdd yn cefnogi'n llawn ac wedi ymrwymo i Ddatganiad Amrywiaeth y Coleg:

> *'Rydym yn goleg cynhwysol ac amrywiol, lle mae croeso i bawb. Yn rhywle lle allwch chi fod eich hun, heb ofni cael eich beirniadu. Amgylchedd parchus, sy'n croesawu gwahanol ddiwylliannau, agweddau, credoau a safbwyntiau, lle mae pawb yn perthyn.*
>
> *Drwy groesawu amrywiaeth, rydym yn meithrin amgylchedd agored a chroesawgar, lle gall pobl o bob cefndir ddysgu a chydweithio. Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb, cynhwysiant, a llesiant, ac mae ein campysau amrywiol yn cynnig budd academaidd a chymdeithasol, yn ogystal â budd cymunedol ehangach.*
>
> *Mae amrywiaeth yn cyfoethogi cymuned ein coleg, ac yn un o'r agweddau sy'n ein gwthio tuag at gyflawni ein cenhadaeth, felly byddwn yn parhau i ymateb i newidiadau yn ein byd sy'n dod yn fwyfwy cysylltiedig. Drwy gydweithio, byddwn yn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol er mwyn cael gwared ar rwystrau at lwyddiant, wrth hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant, tosturi, a pharch at bawb'.*


*Yn ein barn ni, os ydych yn meithrin tîm o bobl dalentog o gefndiroedd amrywiol, bydd pob un yn gallu cyfrannu eu ffordd unigryw o feddwl, ymateb a datrys problemau. Yn y pen draw, yn naturiol, y canlyniad fydd arloesedd, ac ynghyd â'r amrywiaeth o brofiadau ledled ein campysau, bydd yn eich paratoi chi – ein dysgwyr a'n staff – i ffynnu'n bersonol ac yn broffesiynol, mewn cymdeithas fyd-eang.*

5.2 Monitrir amrywiaeth y bwrdd ac adroddir arni gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio recriwtio aelodau'r Gorfforaeth ac mae'n adolygu data ar sgiliau ac amrywiaeth yn rheolaidd i lywio ei argymhellion. Cydnabyddir y gall cymysgedd o sgiliau, cefndiroedd a phrofiadau byw wella effeithiolrwydd Bwrdd trwy ddod â safbwyntiau amgen sy'n atal 'meddwl grŵp', yn gwella trafodaeth ac yn cryfhau lefel yr her a ddarperir. Yn 2020-21 daeth Coleg Gwent yn gysylltiedig â’r Grŵp Arweinyddiaeth Du (BLG) a chymerodd y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ran weithredol yn ei raglen sefydlu. Yn ei Adroddiad Hunanasesu, mae'r Bwrdd eisoes wedi nodi gwelliant mewn amrywiaeth y Bwrdd fel blaenoriaeth ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i hyn.


5.3 Mae rhywfaint o gynnydd cyfyngedig wedi'i wneud, ond mae'r Bwrdd yn cydnabod bod angen ymdrech barhaus a chanolbwyntiedig i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn cyflawni'r nod o gael Bwrdd amrywiol a chynhwysol. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth, gyda chefnogaeth y Swyddog Llywodraethu, y Cyfarwyddwr AD a’r Rheolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant, yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth am gyfleoedd i ymuno â’r Bwrdd yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl a bod pawb a benodir yn derbyn mentora a chymorth parhaus i’w galluogi i gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at lywodraethu Coleg Gwent.

## Amrywiaeth y Bwrdd ar 30 Gorffennaf 2022

5.4




Nid oes unrhyw Lywodraethwyr yn eu hystyried eu hun yn 'anneuaidd' neu 'arall'.






Ym mis Gorffennaf 2022 nododd 76% o’r Llywodraethwyr eu bod yn ‘Gwyn Prydeinig’, o’i gymharu â 95% ym mis Gorffennaf 2021.

Ar hyn o bryd dim ond 1 Llywodraethwr sydd wedi datgan anabledd/cyflwr tymor hir ac mae 1 Llywodraethwr yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae pob Llywodraethwr ar hyn o bryd yn eu hystyried eu hun yn heterorywiol.

Mae proffil oedran aelodau wedi aros yn gymharol sefydlog gyda'r oedran cyfartalog ym mis Gorffennaf 2022 yn 50 oed (o'i gymharu â 51 oed ym mis Gorffennaf 2021).

**Proffil oedran:**




Mae gan lywodraethwyr ystod o brofiad proffesiynol ac arbenigedd mewn sectorau gan gynnwys:

- Addysg
- Cyllid, Archwilio a Chyfrifyddu
- Gofal Iechyd
- Peirianneg
- Technolegau digidol
- Manwerthu

## 6. COFRESTR O FUDDIANNAU

6.1 Wrth eu penodi, ac yn flynyddol wedi hynny, mae pob aelod yn cwblhau Datganiad o Ddordebau. Mae hwn yn rhestru'r holl fuddiannau sydd ganddyn nhw neu aelod agos o'u teulu a allai achosi (neu edrych fel petai'n achosi) gwrthdaro wrth roi eu barn annibynnol tra chyflawni eu cyfrifoldebau fel Llywodraethwr/aelod o bwyllgor. Cedwir y Gofrestr o Fuddiannau Aelodau gan y Swyddog Llywodraethu. Cynhwysir eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor er mwyn caniatáu i aelodau ddatgan unrhyw fuddiant mewn perthynas ag eitemau penodol a phynciau i'w trafod. Mae'r holl fuddiannau a ddatganwyd, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd, yn cael eu cofnodi yn y cofnodion yn ogystal ag atodiad ar wahân i'r Gofrestr Buddiannau.

6.2 Atgynhyrchir **Cofrestr o Fuddiannau Aelodau ar gyfer 2021/22** wedi'i hatgynhyrchu isod:

| Enw | Manylion buddiannau | Dyddiad y datgelwyd neu y diweddarwyd y buddiant | Dyddiad Diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Sue Ball** | • Cyn-weithiwr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: Cyfarwyddwraig Gynorthwyol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol (Ymddeolwyd ar 01/08/21 ond yn dal i wneud gwaith ymgynghorol)<br>• Aelod o Gyngor Plwyf Eglwysig, Eglwys Sant Marc, Casnewydd | 01.08.21<br>26.03.18 | 01.12.21<br>23.04.18 |
| **Anthony Basnett** | • Gweithiwr - VMWARE o 17.06.19<br>• Cyn-weithiwr, Cisco International Cyf. (tan 16.06.19)<br>• Gwraig - gweithiwr yng Ngholeg Gwent | 21.05.19<br>17.01.18<br>17.01.18 | 22.05.19<br>22.05.19<br>19.01.18 |
| **Moawia Bin-Sufyan**<br>Penodwyd 01.01.22 | • Cyflogaeth daledig - Cyfarwyddwr Buddsoddiadau, Governor Investments Cyf<br>• Cyflogaeth daledig - Cydlynydd Rhanbarthol, Care after Combat | 05.01.22<br>05.01.22 | 10.01.22<br>10.01.22 |

| Enw | Manylion buddiannau | Dyddiad y datgelwyd neu y diweddarwyd y buddiant | Dyddiad Diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| | • Cyfarwyddwr Anweithredol – Hendre/Hafod Housing | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod Allanol – Awdurdod Heddlu Dinas Llundain | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel (Penodiadau Cyhoeddus) – Llywodraeth Cymru (yn ystod 2023/23 i gynnwys paneli sy'n penodi Cadeiryddion y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi. | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Sylwedydd Lleyg – Gwasanaethau Hebrwng Carcharorion a Cheidwadol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (PECS) | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod o'r Bwrdd – Bwrdd Monitro Annibynnol CEM Parc | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod – Cyngor Iechyd Cymuned De Morgannwg | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Trysorydd ac Aelod o'r Cyngor – St John, Caerdydd, Caerdydd a'r Fro | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Gwirfoddolwr Brechu – Ambiwlans Sant Ioan Cymru | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod o'r Panel – Panel Amrywiaeth ITV Cymru | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod o'r Bwrdd Gweithredol – Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig – Cangen Caerdydd a'r Cylch | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Cadeirydd – Safer Vale – Grŵp Ymgynghorol ar Gysylltiadau Hiliol yn y Gymuned | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Llywodraethwr AALl – Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Gynradd Llandochau | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Ynad (YH) – Canolbarth, De Morgannwg a Gwent | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod – CYSAG Bro Morgannwg | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Lifreiwr – Cwmni Anrhydeddus yr Addysgwyr | | |
| | • Rhyddfreiniwr – Cwmni Anrhydeddus y Gwneuthurwyr Sbectol | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Cynorthwy-ydd Llys – Gild y Rhyddfreinwyr Ifainc | 05.01.22 | 10.01.22 |
| | • Aelod – Gild Rhyddfreinwyr Dinas Llundain | 05.01.22 | 10.01.22 |
| **Elizabeth Brimble** | • Cyfarwyddwraig Cymwysterau, Cofrestru ac Addasrwydd i Ymarfer, Cyngor y Gweithlu Addysg | 29.05.19 | 10.06.19 |
| **Andrew Clark** | • Cyflogir ei ferch gan goleg AB Cymraeg arall | 01.03.21 | 15.03.21 |
| | • Aelod Cyfetholedig o Bwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd Arholi AQA | 01.03.21 | 15.03.21 |
| | • Cyn-weithiwr, Llywodraeth Cymru (ymddeolwyd 31.01.21) | 01.03.21 | 15.03.21 |
| | • Aelod Annibynnol, Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, Audit Wales (diwedd wythnos 01.07.21) | 20.07.21 | 22.07.21 |
| | • Cymrawd, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) | 06.12.21 | 03.01.22 |
| | • Aelod o'r Bwrdd - CCDG Cyf (Masnachu fel Gyrfa Cymru) (diwedd wythnos: 01.08.21) | 01.08.21 | 09.12.21 |
| **Emma Davies** Ymddiswyddwyd 28.01.22 | • Gweithiwr, Willis Towers Watson | 24.02.21 | 15.03.21 |
| **Jamie Farr** | • Perchennog/Cyfarwyddwr YourNorth Cyf | 12.03.21 | 12.03.21 |
| | • Sylfaenydd/Cyfarwyddwr YourNorth Veterans – Cwmni Buddiannau Cymunedol | | |
| **Christopher Freegard** | • Dirprwy Raglaw Gwent | 12.01.20 | 07.02.20 |
| | • Cyn-lywodraethwr, Prifysgol De Cymru (tan 31 Gorffennaf 2020) | 31.07.20 | 31.07.20 |
| | • Ymddiriedolwr – Prosiect Kaleidoscope | 12.01.20 | 07.02.20 |
| **Rhiannon Fowler** Penodwyd 01.01.22 | • Gweithiwr, Coleg Gwent | 12.01.22 | 12.01.22 |
| | • Gŵr – Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam | 12.01.22 | 12.01.22 |

| Enw | Manylion buddiannau | Dyddiad y datgelwyd neu y diweddarwyd y buddiant | Dyddiad Diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| **Bailjit Gill**<br>Penodwyd 01.06.22 | • Uwch Reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Tŷ'r Cwmnïau | 01.06.22 | 22.06.22 |
| **Darragh Hanley-Crofts**<br>Ymddiswyddwyd 31.07.22 | • Gweithiwr – Virtual Aerospace (o 01.09.21)<br>• Cyn-weithiwr, y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig<br>• Aelod, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) | 01.09.21<br>01.08.17<br>01.08.17 | 09.12.21<br>30.09.17<br>30.09.17 |
| **Johnathan Hooper**<br>Penodwyd 01.01.22 | • Myfyriwr, Coleg Gwent | 24.01.22 | 25.01.22 |
| **Sian Hughes**<br>(Llywodraethwr Staff)<br>Ymddeolwyd 30/11/21 | • Aelod o staff, Coleg Gwent<br>Dim buddiannau eraill a ddatganwyd | - | 03.10.16 |
| **Guy Lacey**<br>(Pennaeth/Prif Weithredwr) | • Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Coed Duon, Caerffili<br>• Cyn-Lywodraethwr, Ysgol Gyfun Trefynwy, Trefynwy (tan Ionawr 2021)<br>• Cynghorydd, YPRENTIS (partneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy)<br>• Cyfarwyddwr/Cadeirydd, Colegau Cymru<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Services Cyf. (is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Golegau Cymru)<br>• Dirprwy Raglaw Gwent | 08.10.15<br>08.10.15<br>17.04.18<br>01.09.18<br>01.09.18<br>01.09.19<br>25.11.21 | 08.10.15<br>08.10.15<br>17.04.18<br>01.01.19<br>01.09.18<br>01.09.18<br>25.11.21 |
| **Mark Langshaw**<br>(Cadeirydd) | • Cyfarwyddwr Continental Teves (Cyflogaeth). Mae'r cwmni'n gwsmer hyfforddi i'r Coleg ac yn cyflogi prentisiaid sy'n mynychu'r Coleg.<br>• Cadeirydd, Prosiect Effaith Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (di-dâl)<br>• Cadeirydd Bwrdd Menter Blaenau Gwent (di-dâl)<br>• Cadeirydd y Bwrdd Cynghori Strategol, y Cymoedd Technoleg (di-dâl)<br>• Cyfarwyddwr, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl)<br>• Penodwyd yn Gadeirydd Dros Dro, Fforwm Modurol Cymru (di-dâl) | 09.11.16<br>09.11.16<br>09.09.18<br>09.09.18<br>09.11.16<br>28.06.21 | 10.11.16<br>09.11.16<br>09.09.18<br>09.09.18<br>09.11.16<br>28.06.21 |
| **Sadique Maskeen**<br>Penodwyd 01.01.22<br>Ymddiswyddwyd 25.08.22 | • Cyflogaeth – EY Breakthrough Incentives<br>• Aelod – Grŵp Cynghori Annibynnol Heddlu De Cymru<br>• Llysgennad, Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru | 05.01.22<br>05.01.22<br>01.04.22 | 10.01.22<br>10.01.22<br>19.07.22 |
| **Ray Morrison** | • Cyd-berchennog a chyd-gyfarwyddwr, Bowmor Cyf. Yn masnachu fel Bluebird Care Casnewydd (darparwr gofal cartref o wasanaethau cymdeithasol i oedolion)<br>• Gwirfoddolwr (Hyrwyddwr Cyfeillion Dementia), Cymdeithas Alzheimer<br>• Aelod, Grŵp Gweithredu Dinas Dementia-gyfeillgar Casnewydd<br>• Aelod, Fforwm Darparwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf<br>• Aelod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Grŵp Cyswllt Gweithredol Gofal Cartref | 09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18 | 09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18<br>09.08.18 |
| **John Phelps** | • Ymgynghorydd Addysg a Hyfforddiant AB hunangyflogedig gan gynnwys:<br>  ○ Cymwysterau Cymru – adolygiad o gymwysterau peirianneg (Cynghorydd i'r Sector) | 29.05.19 | 10.06.19 |

| Enw | Manylion buddiannau | Dyddiad y datgelwyd neu y diweddarwyd y buddiant | Dyddiad Diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| | ○ Gwaith asesu dysgu seiliedig ar waith ar gyfer Coleg Merthyr | | |
| **Matthew Preece** | • Hunangyflogedig – Meddyg Busnes (Gwaith ymgynghori â thâl i fusnesau ledled Gwent).<br>• Is-lywydd BNI Celtic – grŵp rhwydweithio ac atgyfeirio a leolir yng Nghasnewydd<br>• Gwraig – Cyfarwyddwraig Ariannol, Aviva | 16.01.20<br>16.01.20<br>16.01.20 | 26.01.20<br>26.01.20<br>26.01.20 |
| **Wendy Rogers** (Llywodraethwr Staff) | • Aelod o staff, Coleg Gwent<br>• Dirprwy Gadeirydd, UCU, Coleg Gwent<br>• Cadeirydd, UCU Campws Crosskeys<br>• Cynrychiolydd UCU, Campws Pont-y-pŵl a Brynbuga | 10.08.18<br>10.08.18<br>10.08.19<br>10.08.19 | 10.08.18<br>10.08.18<br>10.08.19<br>10.08.19 |
| **Shannon Sheean (Llywodraethwr Myfyrwyr)** | • Myfyrwraig, Coleg Gwent | 01.04.22 | 04.04.22 |
| **Lizzie Swaffield** | • Gweithiwr, Sefydliad Gwaddol Addysg<br>• Cyn-weithiwr, Cymwysterau Cymru (Rheolwraig Cymwysterau) tan Awst 2020<br>• Cyfranddaliwr, Swaffield Cyf (busnes gwasanaethau peirianneg)<br>• Gŵr - perchennog Swaffield Cyf<br>• Aelod, Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange (Prosiect trosglwyddo asedau cymunedol lleol mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd) | 28.09.20<br>02.10.20<br>20.06.17<br>20.06.17<br>19.07.18 | 02.10.20<br>02.10.20<br>31.07.17<br>31.07.17<br>19.07.18 |
| **Martin Veale** | • Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. (Taledig) ac Ymddiriedolwr Elusen Codi Arian Felindre<br>• Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg, Chwaraeon Cymru<br>• Cyfarwyddwr, Cwmni Buddiannau Cymunedol Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Pen-y-Cymoedd. (dechrau Mehefin 2019)<br>• Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Sir Penfro<br>• Aelod Lleyg a Chadeirydd, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, CBS Merthyr Tudful<br>• Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>• Aelod Lleyg, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio CBS Sir Fynwy<br>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>• Aelod, Pwyllgor Archwilio, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru<br>• Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, Cymdeithas Tai Hafod, Caerdydd<br>• Aelod Lleyg o'r Cydbwyllgor Archwilio (yn adrodd i'r Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru) (o Mai 2021)<br>• Aelod Lleyg a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (o Ebrill 2021)<br>• Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Safonau, CBS Merthyr Tudful | 15.03.16<br>01.09.18<br>11.04.19<br>06.09.19<br>11.04.19<br>07.01.21<br>09.06.22<br>20.01.20<br>22.06.22<br>07.01.21<br>10.05.21<br>10.05.21<br>22.06.22 | 16.03.16<br>05.09.18<br>11.04.19<br>15.11.19<br>21.06.22<br>25.01.21<br>22.06.22<br>27.01.20<br>22.06.22<br>25.01.21<br>11.05.21<br>11.05.21<br>22.06.22 |

| Enw | Manylion buddiannau | Dyddiad y datgelwyd neu y diweddarwyd y buddiant | Dyddiad Diweddaru'r Gofrestr |
|---|---|---|---|
| | • Aelod Lleyg ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Safonau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | • Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen (di-dâl) | 20.01.20 | 27.01.20 |
| | • Llywodraethwr, Ysgol Newydd 3-16, Y Ddraenen Wen, Pontypridd | 22.06.22 | 22.06.22 |
| | • Ynad Heddwch, Mainc Canolbarth Cymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM | 12.09.16 | 03.11.16 |
| | • Aelod Lleyg, Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, CBS Rhondda Cynon Taf | 22.06.22 | 22.06.22 |
| **Gareth Watts** (Aelod Allanol) | • Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, Senedd Cymru/Senedd Cymru (Cyflogaeth) | 20.10.15 | 25.10.15 |
| | • Aelod o'r Corff Llywodraethol, Ysgol Lan y Ddôl, Caerdydd | 17.10.17 | 08.11.17 |
| | • Aelod, Cydbwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | 12.09.22 | 23.09.22 |
| **Dorota Lee** (Aelod Allanol) Penodwyd 01.06.21 | • Gweithiwr, Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon/BDUK: Arweinydd Sicrwydd Portffolio | 04.01.21 | 05.01.21 |
| | • Cyn-weithiwr, y Swyddfa Myfyrwyr (tan Dachwedd 2021) | 04.01.21 | 05.01.21 |
| | • Aelod - Bwrdd Monitro Annibynnol CEM Brynbuga | 23.06.21 | 01.07.21 |
| | • Ynad Heddwch, Llys Oedolion a Theuluoedd, Mainc Gwent | 23.06.21 | 01.07.21 |

### Contractau ar gyfer cyflenwi nwyddau a gwasanaethau

6.3 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022, ni ddyfarnwyd unrhyw gontract am nwyddau neu wasanaethau gan Goleg Gwent i unrhyw aelod o'r Gorfforaeth neu bwyllgor, nac i unrhyw sefydliad y mae aelod yn uniongyrchol gysylltiedig ag ef, ac eithrio cyflawni ei fusnes cydnabyddedig o ddarparu addysg a hyfforddiant er budd y gymuned leol.

## 7. GWEITHGARWCH CORFFORAETHOL

### CYFARFODYDD Y BWRDD

7.1 Roedd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gallu ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ystod 2021/22, ond bu rhaid i nifer o gyfarfodydd cael eu cynnal o bell neu fel cyfarfodydd 'hybrid'. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn bosibl o ganlyniad i fuddsoddiad mewn technoleg cyfathrebu a fydd yn parhau i gefnogi llywodraethu effeithiol yn y dyfodol.

7.2 Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn ystod 2021/22 ar y dyddiadau canlynol:

- 5 Hydref 2021
- 7 Rhagfyr 2021
- 15 Mawrth 2022
- 24 Mai 2022
- 19 Gorffennaf 2022

7.3 Y cworwm y cytunwyd arno ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yw presenoldeb o 50% o aelodau cymwys. Roedd pob cyfarfod a gynhaliwyd trwy gydol y flwyddyn yn gworwm.

### Adrodd a monitro

7.4 Mae'r Pennaeth yn cyflwyno adroddiad ym mhob cyfarfod Bwrdd sydd yn amlinellu materion allweddol y coleg a datblygiadau yn y sector AB yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn cyflwyno adroddiad manwl yn amlinellu perfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb, DPau ariannol a rhagolygon. Mae'r Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) yn rhoi''r diweddariadau am recriwtio dysgwyr a materion ansawdd. Mae pob Is-bennaeth hefyd yn cefnogi diweddariadau gan yr is-bwyllgorau perthnasol.

7.5 Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau sicrwydd rheolaidd ar feysydd allweddol o gyfrifoldeb llywodraethu. Cefnogir y diweddariadau hyn gan adborth oddi wrth Lywodraethwyr Cyswllt sydd yn mynychu cyfarfodydd grwpiau llywio gweithredol i ddarparu haen ychwanegol o sicrwydd. Mae presenoldeb Llywodraethwyr Cyswllt yn helpu i sicrhau bod unrhyw bryderon neu faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hamlygu i'r Bwrdd yn gynnar yn y broses.

7.6 Y Llywodraethwyr Cyswllt yn ystod 2021/22 oedd:

- **Mr A Clark** Llywodraethu Gwybodaeth/Seiberddiogelwch
- **Mr J Farr** Diogelu
- **Mr J Phelps** Iechyd a Diogelwch
- **Mr M Preece** Amrywiaeth a Chynhwysiant (DS: o fis Medi 2022 ymlaen, Mrs B Gill fydd yn cymryd y rôl hon)

### Cymeradwyo gwariant cyfalaf

7.7 Yn unol â Rheoliadau Ariannol y coleg, mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r holl wariant cyfalaf dros £250,000. Yn ystod 2021/22 cymeradwyodd y Bwrdd wariant cyfalaf mewn perthynas â:

- Ailwampio'r cyfleusterau addysgu Nyrsio Milfeddygol ar Gampws Brynbuga
- Prynu offer/technoleg i gefnogi datblygiad HiVE yng Nglynebwy
- Hwb Bioddiogelwch newydd ar Fferm Radyr, Brynbuga
- Ailwampio'r cyfleusterau addysgu Celf a Dylunio ar Gampws Crosskeys
- Uwchraddiadau 'Sero net' i adeiladau ar draws y coleg
- Ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar draws y coleg.

7.8 Monitrir cynnydd y prif brosiectau cyfalaf gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac mae crynodebau "dangosfwrdd" y prosiectau yn cael eu hadolygu a'u rhannu gyda'r Bwrdd cyfan er gwybodaeth.

## PWYLLGORAU

7.9 Cefnogir gwaith y Bwrdd gan bum is-bwyllgor. Mae'r strwythur hwn yn galluogi adolygiad a thrafodaeth fanylach o feysydd penodol ac yn cefnogi Llywodraethwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanylach.

7.10 Mae pob pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ei weithgareddau i'r Bwrdd. Mae hwn yn categoreiddio eitemau fel eitemau ar gyfer uwchgyfeirio/cymeradwyaeth, sicrwydd

neu wybodaeth. Darperir copïau o gofnodion drafft a dogfennau allweddol hefyd i'w hadolygu.

7.11 Y pwyllgorau yw:

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio** | Cadeirydd – Martin Veale |
| **Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd** | Cadeirydd – Lizzie Swaffield |
| **Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau** | Cadeirydd – Anthony Basnett |
| **Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth** | Cadeirydd – Sue Ball |
| **Pwyllgor Tâl** | Cadeirydd – Mark Langshaw MBE |

## Pwyllgor Archwilio

7.12 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu o fewn gofynion Cod Ymarfer Archwilio AB Llywodraeth Cymru (ACOP) ac mae'n cynnwys pedwar Llywodraethwr a dau Aelod Allanol ychwanegol. Mae gan sawl aelod brofiad arbenigol o archwilio, cyfrifyddiaeth neu lywodraethu.

7.13 Fel sy'n ofynnol gan yr ACOP, nid yw aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd y Gorfforaeth a'r Pennaeth/Prif Weithredwr yn ogystal â'r Llywodraethwyr Staff a Myfyrwyr. Yn ogystal, nid oes unrhyw aelod o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

7.14 Mae'r Pennaeth a'r Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. O bryd i'w gilydd gwahoddir aelodau eraill o'r Uwch Dîm Arwain i fynychu er mwyn cefnogi trafodaethau penodol.

7.15 Mae cynrychiolwyr o wasanaeth Archwilio Mewnol y coleg (TIAA) a'r Archwilwyr Allanol (PwC) yn mynychu pob cyfarfod. Mae'r pwyllgor yn cynnal trafodaethau preifat gyda'r ddau gynrychiolydd yn flynyddol ac mae holl staff y coleg (gan gynnwys y Swyddog Llywodraethu) wedi'u heithrio ohonynt.

7.16 Yn 2021/22 cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio 4 gwaith ar:

- 16 Tachwedd 2021
- 15 Chwefror 2022
- 6 Ebrill 2022
- 13 Gorffennaf 2022

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio.

7.17 Yn dilyn pob cyfarfod, mae'r pwyllgor yn darparu adroddiad diweddaru i'r Bwrdd ynghyd â chopïau o gofnodion drafft a phapurau perthnasol. Fel sy'n ofynnol gan yr ACOP, mae'r pwyllgor hefyd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol manwl i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o fusnes y pwyllgor ac yn rhoi barn y Pwyllgor Archwilio ar brosesau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu'r coleg. Mae barn y Pwyllgor Archwilio yn seiliedig ar ei waith ei hun a gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol am y flwyddyn, gyda'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno ar gyfer adolygiad gan y Bwrdd ar yr un pryd. Yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd, mae'r adroddiadau hyn yn dod yn rhan o gyflwyniadau blynyddol y Gorfforaeth i Lywodraeth Cymru.

## Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

7.18 Mae'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn goruchwylio perfformiad a datblygiadau allweddol ym mhob maes ansawdd a chwricwlwm, gan gynnwys recriwtio a chadw

myfyrwyr, asesu, cyrhaeddiad, cynllunio cwricwlwm, Llais y Dysgwr, Diogelu, Anghenion Dysgu Ychwanegol a chymorth i ddysgwyr.

7.19 Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys naw Llywodraethwr, gan gynnwys dau Lywodraethwr Myfyrwyr a Llywodraethwr Staff Addysgu. O fis Medi 2022, bydd trydydd Llywodraethwr Myfyrwyr yn gwasanaethu ar y pwyllgor i gryfhau llais y dysgwr ymhellach mewn meysydd sy'n allweddol berthnasol iddynt.

Mynychir cyfarfodydd hefyd gan aelodau allweddol o'r Uwch Dîm arwain

- Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd)
- Cyfarwyddwyr Cyfadran (x3)
- Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol
- Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr
- Cyfarwyddwr y Cwricwlwm a Gwasanaethau Gwybodaeth

7.20 Yn ystod 2021/22 cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith ar:

- 9 Tachwedd 2021
- 18 Ionawr 2022
- 5 Ebrill 2022
- 14 Mehefin 2022

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.

## Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

7.21 Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cynghori'r Bwrdd ac yn monitro perfformiad mewn materion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol (gan gynnwys perfformiad a gosod cyllideb), adnoddau dynol, TGCh ac ystadau. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro cynnydd ar y prif brosiectau cyfalaf.

7.22 Mae'r aelodaeth yn cynnwys saith Llywodraethwr, gan gynnwys y Llywodraethwr Staff Cymorth Busnes. Mynychir cyfarfodydd hefyd gan aelodau allweddol o'r Uwch Dîm Arwain:

- Is-Bennaeth (Adnoddau a Chynllunio)
- Cyfarwyddwr Ystadau
- Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr AD
- Cyfarwyddwr TGCh

7.23 Cyfarfu'r pwyllgor bum gwaith yn ystod 2021/22 ar:

- 23 Tachwedd 2021
- 6 Ionawr 2022
- 1 Mawrth 20200
- 26 Ebrill 2022
- 27 Mehefin 2022

7.24 Oherwydd salwch, cafodd dau Lywodraethwr eu cyfethol i'r pwyllgor ar gyfer cyfarfod Mehefin 2022 er mwyn sicrhau cworwm. Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Archwilio AB Llywodraeth Cymru, nid oedd y naill na'r llall o'r Llywodraethwyr cyfetholedig hyn yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio. Roedd cworwm yn yr holl gyfarfodydd pwyllgor eraill yn ystod y flwyddyn.

### Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth

7.25 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn cynghori'r Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud ag aelodaeth y Gorfforaeth gan gynnwys recriwtio, rheoli perfformiad, datblygiad llywodraethwyr a chynllunio olyniaeth. Mae'r pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar ei gyfansoddiad a materion llywodraethu ehangach gan gynnwys goblygiadau newidiadau deddfwriaethol ac ymgynghoriadau cenedlaethol ar lywodraethu AB. Yn ystod 2021/22 roedd hyn yn cynnwys monitro cynnydd y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil sy'n mynd i'r afael â diwygio'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2022 a bydd gan y pwyllgor rôl allweddol mewn monitro datblygiadau yn y dyfodol.

7.26 Er mai cyfrifoldeb y Bwrdd yn ei gyfanrwydd yw penodi aelodau'r Gorfforaeth, y pwyllgor sydd yn goruchwylio'r broses recriwtio a rhaid ystyried ei gyngor a'i argymhellion wrth ystyried penderfyniadau ar benodi aelodau'r Gorfforaeth.

7.27 Mae'r pwyllgor yn cynnwys chwe Llywodraethwr gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Gorfforaeth, y Pennaeth/Prif Weithredwr a Llywodraethwr Myfyrwyr. O fis Medi 2022 ymlaen, bydd yr aelodaeth yn gostwng i bump ac ni fydd yn cynnwys Llywodraethwr Myfyrwyr bellach. Fodd bynnag, y bwriad yw parhau i wahodd Myfyriwr Llywodraethwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda darpar benodedigion.

7.28 Yn ystod 2021/22 cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith ar:

- 20 Medi 2021
- 30 Tachwedd 2021
- 1 Rhagfyr 2021
- 22 Mawrth 2022
- 17 Mai 2022
- 11 Gorffennaf 2022

Roedd cworwm ym mhob cyfarfod.


### Pwyllgor Tâl

7.29 Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod yn flynyddol i ystyried perfformiad, telerau ac amodau a thâl y pedwar Uwch Ddeilydd Swydd (Pennaeth/Prif Weithredwr, Is-benaethiaid a'r Swyddog Llywodraethu). Mr Langshaw sy'n cadeirio'r pwyllgor fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, un sydd yn cynnwys pedwar Llywodraethwr annibynnol arall.

7.30 Cyfarfu'r pwyllgor ym mis Mawrth 2022 a gwnaeth argymhelliad i'r Bwrdd ar ddyfarniad cyflog i Uwch Ddeiliaid Swydd. Cymeradwywyd hyn wedyn yng nghyfarfod y Bwrdd ar 15 Mawrth 2022. Wrth ystyried y dyfarniad cyflog i Uwch Ddeilliaid Swydd, mae'r pwyllgor yn ystyried perfformiad, data meincnodi perthnasol ac unrhyw ddyfarniad cyflog diweddar yn y sector.

## 8. PRESENOLDEB

8.1 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn anelu at bresenoldeb o 80%. Mae presenoldeb ar gyfer cyfarfodydd 2021/22 wedi'i grynhoi isod:




## 9. DATBLYGIADAU ALLWEDDOL

9.1 Eleni gwelwyd y flwyddyn lawn gyntaf o weithrediadau ym Mharth Dysgu Torfaen ac ym mis Hydref 2021, roedd nifer o Lywodraethwyr yn falch o fynychu'r seremoni agoriadol swyddogol o'r diwedd gyda chydweithwyr o Gyngor Sir Torfaen. Roedd ymwelwyr yn gallu mynd ar daith o amgylch y campws a siarad â staff a myfyrwyr.

9.2 Yn ystod y flwyddyn bu'r Bwrdd yn gweithio gyda'r rheolwyr i gytuno ar set newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol trosfwaol er mwyn monitro cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Strategol newydd yn eu herbyn. Roedd datblygiadau allweddol eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cynnydd parhaus gyda sicrhau'r safle ar gyfer Ardal Wybodaeth Casnewydd (campws canol y ddinas yng Nghasnewydd);
- Cynnydd gyda chynlluniau ar gyfer Canolfan Beirianneg Gwerth Uchel HIVE yng Nglynebwy;
- Ffocws cynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant gyda phenodiad Rheolwr Amrywiaeth, Cynhwysiant a Lles newydd;
- Agor yr Hwb Seiber ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent;
- Ail-lansio partneriaeth strategol gyda Phrifysgol De Cymru; a
- Digwyddiad Gwobrau Dysgwyr traws-golegol proffil uchel a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol, Gwesty'r Celtic Manor.

## 10. SWYDDOG LLYWODRAETHU

10.1 Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn ystod 2021/22 oedd Mrs Marie Carter sy'n dal Tystysgrif Uwch mewn Llywodraethu Corfforaethol y Sefydliad Llywodraethu Siartredig. Mynychodd Mrs Carter holl gyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2021/22, ac eithrio'r Pwyllgor Tâl.

10.2 Yn ystod y flwyddyn cymerodd ran mewn cyfleoedd datblygu yn ymwneud â:

- Amrywiaeth y Bwrdd
- Diogelu a'r Ddyletswydd Atal
- Atal Twyll
- Chwythu'r chwiban
- Llywodraethu Elusennau yn y Sector Addysg
- Goblygiadau Cyfraith Martyn (Dyletswydd Amddiffyn).
- Seiberddiogelwch a chynllunio parhad busnes

Mynychodd gyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu AB Cymru hefyd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a thrafod datblygiadau allweddol yn y sector gyda gweithwyr llywodraethu proffesiynol AB eraill.

## DATGANIAD O SICRWYDD

Cyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae Swyddog Llywodraethu Coleg Gwent yn fodlon bod Corfforaeth Coleg Gwent yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022 wedi cyflawni ei chyfrifoldebau statudol a bod holl fusnes y Bwrdd a'i bwyllgorau wedi'i gyflawni yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Gwent.

Mae hi hefyd o'r farn bod gweithgareddau'r Gorfforaeth yn adlewyrchu'r disgwyliadau o ran arfer gorau a nodir yng Nghod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru.

……………………………………………... **Marie Carter, Swyddog Llywodraethu Dyddiad……………**

Mae Bwrdd Corfforaeth Coleg Gwent wedi adolygu'r adroddiad hwn a chyn belled ag y gall fod yn rhesymol ymwybodol, mae'n fodlon ei fod yn gofnod cywir a theg o fusnes y Gorfforaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2022.

…………………………………………… **Mark Langshaw MBE, Cadeirydd y Llywodraethwyr Dyddiad………….**